**Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri**
**Ffestiniog & Welsh Highland Railways**
**Prosiect Dehongli'r Rheilffyrdd a Boston Lodge**

# Pecyn recriwtio Rheolwr Prosiect Adeiladu

## 1 Trosolwg

Mae'r pecyn recriwtio hwn yn rhoi gwybodaeth am y swydd, y prosiect a sut i wneud cais

| | |
|---|---|
| Swydd | Rheolwr Prosiect Adeiladu |
| Llawn amser neu ran-amser | Rhan-amser 0.5 |
| Cyfnod penodol | 18 mis |
| Cyflog | Hyd at £29,000 y flwyddyn pro rata |
| Dyddiad cau | 8Aug22 |
| Dyddiad targed y cyfweliad | 23 Awst 22 |
| Dyddiad cychwyn arfaethedig | Medi/Hydref 2022 |

## 2 Y prosiect

Mae hefyd yn werth gwylio'r cyflwyniad fideo byr i'r prosiect sydd ar gael yma:
Fideo – Dehongliad a Phrosiect Boston Lodge (festrail.co.uk)

Gellir egluro'r prosiect mewn tri maes sy'n gysylltiedig â'i gilydd:

Dehongli (dweud y straeon), Gweithgareddau (ymgysylltu â phobl a datblygu sgiliau) ac Adeiladau (gwneud i Boston Lodge weithio'n well).

**Egwyddorion**

Yr egwyddorion sy'n sail i'r Cynllun Dehongli a Gweithgarwch yw

- Cefnogi ymwelwyr i ddysgu am hanes a threftadaeth y rheilffordd a Gwaith Boston Lodge
- Ysgogi ac ysbrydoli gwirfoddolwyr i sicrhau bod y stori'n tyfu i'r dyfodol
- Gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned leol i ymgysylltu a chynnwys pobl yn well yn y rheilffordd a'i threftadaeth
- Ysbrydoli pobl i feddwl am yrfa gyda'r rheilffordd neu Waith Boston Lodge
- Cefnogi gwytnwch a chynaliadwyedd y sefydliad

Mae’r egwyddorion hyn wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch pa weithgareddau i’w cynnwys yn y prosiect a’r ffyrdd y bydd y rheilffordd yn cael ei dehongli.

**Cynllun Gweithgaredd**

Mae pum elfen i’r Cynllun Gweithgaredd

- Hyfforddiaethau ym maes rheoli prosiectau, gweithrediadau a dehongli sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y prosiect ac sy'n mynd i'r afael â bylchau sgiliau yn y sector a datblygu sgiliau sy'n addas ar gyfer swyddi lefel uchel yn yr ardal.
- Lleoliadau gwaith ac allgymorth er mwyn i bobl ifanc yn arbennig allu dysgu sgiliau ymarferol sy’n canolbwyntio ar anghenion y rheilffordd, gan gynnwys seilwaith, gwaith, marchnata, dehongli a gweinyddu.
- Prosiectau gwirfoddoli ym maes dehongli a pheirianneg sy’n cynnwys datblygu arweinwyr gwirfoddol. Bydd hyn yn cynnwys ymchwil, casglu straeon gan deuluoedd lleol, datblygu dehongli a theithiau tywys a dysgu sut mae arwain gweithdai.
- Hyfforddiant sgiliau a gweithdai gan gynnwys dysgu treftadaeth arbenigol, teithiau prosiect yn ystod y cyfnod adeiladu i godi ymwybyddiaeth o sgiliau treftadaeth, gweithdai a phrofiadau ysgolion a gweithdai cyhoeddus.
- Teithiau tywys o Boston Lodge.

Y Rheolwr Prosiect fydd yn cyflawni’r rhaglen uchelgeisiol hon, ynghyd â Swyddog Dehongli, Goruchwylydd Hyfforddiant a Digwyddiadau, Goruchwylydd Gwirfoddolwyr Peirianneg a Swyddog Lleoliadau Gwaith.

**Dehongli (dweud y straeon)**

Mae dehongli’n golygu adrodd straeon y rheilffordd ac rydyn ni eisiau sicrhau bod pob pwynt cyswllt yn gyfle i gael rhagor o wybodaeth.  Mae’r daith ymwelwyr o’r wefan/poster i’r gorsafoedd, i’r trenau ac ar ôl hynny yn cael ei hystyried i sicrhau bod ymwelwyr yn cael profiad cyfoethog a gwerth chweil sy’n gwneud iddynt fod eisiau dod yn ôl i ymweld neu hyd yn oed wirfoddoli.

Rhan sylfaenol o ddehongli ar gyfer FFWHR yw adrodd straeon gan staff a gwirfoddolwyr a bydd y prosiect yn darparu cefnogaeth i hyfforddi pobl yn y straeon allweddol a sut i adrodd y straeon hynny.  Yn amlwg, mae llawer mwy o straeon nag y gallwn eu dweud ond bydd y prosiect yn galluogi sylfaen dda o straeon i gael eu defnyddio’n effeithiol y gellir ychwanegu atynt dros amser. Bydd y straeon yn deillio o’r rheini sy’n ymwneud â’r diwydiant llechi, yr heriau sy’n wynebu’r rheilffordd (adeiladu ac adfer), cludo teithwyr, y sgiliau sydd eu hangen (ar hyn o bryd) y rhwydwaith o wirfoddolwyr a’u straeon a’u cysylltiadau â theuluoedd lleol a’u straeon.

I gefnogi’r gwaith o adrodd y stori, bydd dehongliad ychwanegol yn y gorsafoedd sy'n cael y nifer fwyaf o ymwelwyr (Caernarfon, Beddgelert, Porthmadog, Tan y Bwlch, Blaenau Ffestiniog) a chasglu straeon lleol mewn rhai o’r gorsafoedd llai.  Rydym hefyd yn edrych ar ap syml y gellir ei lwytho i lawr ar ffonau symudol cyn y daith a fydd yn helpu pobl i adnabod nodweddion diddorol, heb iddynt orfod bod â phen yn eu sgriniau!

Bydd y prosiect yn sicrhau teithiau mwy rheolaidd o Boston Lodge sy'n rhoi cyfleoedd heb eu hail i bobl weld y tu ôl i'r llenni a deall mwy am ddatblygiad y rheilffordd a beth sydd ei angen i gadw'r olwynion i droi.

Roedd yn rhaid i'r wefan newydd gael ei hailstrwythuro i ymdopi â Covid yn 2020 ac ni chafodd gyfle iawn i gael ei sefydlu, ond wrth i ni symud drwy 2021, bydd yn cael ei haddasu a'i datblygu i helpu ymwelwyr i gael rhagor o wybodaeth yn ogystal ag archebu trenau a rhoi cyfleoedd i roi adborth a rhannu profiadau wedyn.

**Adeiladau yn Boston Lodge**

Bydd y gwaith yn Boston Lodge yn cefnogi'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer y Cynlluniau Gweithgarwch a Dehongli sy'n galluogi defnyddio adeiladau hanesyddol unwaith eto, gan greu lle ar gyfer prosiectau a gwneud i'r safle weithio'n well.

Mae'r gwaith adfer ac adeiladu yn Boston Lodge yn cynnwys:

- Cwblhau'r gwaith o adfer y gofaint i greu lle ar gyfer prosiectau gwirfoddoli.
- Adeiladu estyniad newydd i'r gofaint i greu canolfan hyfforddi ac ymchwil Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol sydd â lle storio y tu ôl iddi ar gyfer paledi.
- Atgyweirio'r Ffowndri Haearn i'w defnyddio fel storfa a lle ar gyfer prosiectau gwirfoddol
- Atgyweirio'r Ffowndri Bres a pharhau i'w defnyddio ar gyfer storio
- Dymchwel y Den presennol a chreu adeilad newydd y disgwylir iddo gael ei ddefnyddio i storio nwyddau o fannau eraill.
- Atgyweirio gweithdy a storfa olew cyfredol y trydanwr a'i ymestyn i ddarparu gwell cyfleusterau bwyta, toiledau a gweithdy'r trydanwr.
- Adeiladu ardal storio a chyfeiriadedd newydd i ymwelwyr lle'r oedd yr Hen Sied Wagon a oedd yn arfer bod yn yr Iard Uchaf (ochr arall y ffordd i Blas Smart)
- Creu ardal ddehongli fach ar ddiwedd yr Hen Sied Wagon lle bydd y teithiau tywys yn dod i ben.
- Adeiladu Sied Loco Fach NLHF.

**Cyllid**

Mae cyfnod cyflawni'r prosiect yn cael ei ariannu gan:

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
Ymddiriedolaeth Rheilffordd Ffestiniog ac Eryri
Cymdeithas Rheilffordd Ffestiniog

**Staffio'r Prosiect**

Bydd Rheolwr y Prosiect Treftadaeth ynghyd â Swyddog Dehongli, Goruchwyliwr Hyfforddiant a Digwyddiadau, Goruchwyliwr Gwirfoddolwyr Peirianneg a Swyddog Lleoliadau Gwaith a Rheolwr Prosiect Adeiladu yn gweithio i gyflawni'r rhaglen uchelgeisiol hon. Bydd tair swydd dan hyfforddiant hefyd a fydd yn ymdrin â meysydd Dehongli, Gweinyddu Gwaith a Rheoli Prosiectau.

## 3 Y swydd

Mae FFWHR yn chwilio am Reolwr Prosiect Adeiladu rhan amser gyda phrofiad o adeiladu, gan gynnwys cadwraeth, i gefnogi'r gwaith o gyflawni cam adeiladu £2m y prosiect. Mae dwy elfen allweddol i'r rôl:

a) darparu cyswllt o ddydd i ddydd gyda'r contractwr ar y safle
b) ymwneud â Staff Boston Lodge i gadw'r safle'n weithredol.

Yn sail i hyn mae'n rhaid cefnogi Rheolwr y Prosiect Treftadaeth a darparu adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd.

Mae'r swydd yn un hanner amser am 18 mis a byddai gofyn i ddeiliad y swydd allu bod ar y safle am ran o'r rhan fwyaf o ddyddiau'r wythnos. Mae'r cyflog yn un pro rata o £29,000 y flwyddyn. Mae'r dyddiad dechrau i'w gadarnhau ond disgwylir iddo fod ym mis Medi/Hydref 2022 gan ddechrau ychydig cyn i'r contractwr fod ar y safle.

Byddai hyn yn arbennig o addas i rywun sy'n gyfarwydd â rheilffyrdd treftadaeth a rheolwyr prosiectau adeiladu sy'n gallu ymweld â'r safle y rhan fwyaf o ddiwrnodau.

Sgiliau craidd:

- Profiad o reoli gwaith contractio a chadwraeth (H)
- Profiad sylweddol o gysylltu'n effeithiol â chontractwyr a chleientiaid (H)
- Profiad o reoli contractwyr ar safle gweithredu byw (H)
- Profiad o fonitro cyllidebau cyfalaf a heb fod yn rhai cyfalaf, gan gynnwys gwirio prisiadau yn erbyn Biliau Priodweddau (H)
- Gwybodaeth am ddiogelwch rheilffyrdd (H)
- Sgiliau rheoli prosiect cryf (H)
- Sgiliau trefnu rhagorol (H)
- Sgiliau cyfathrebu hynod effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig (H)
- Sgiliau mentora neu hyfforddi (D)
- Gallu siarad Cymraeg (D)

Mae disgrifiad swydd manwl ar gael yn Atodiad A

## 4 Yr hyn rydyn ni'n ei gynnig

Gallwn gynnig:

- Cyflog o £14,500 y flwyddyn yn seiliedig ar 0.5 FTE (pro rata o £29,000)
- Pro rata, o leiaf 28 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn, gan gynnwys pob gŵyl banc a gwyliau cyhoeddus
- Cofrestru ar gyfer cynllun pensiwn y cwmni ar ôl y cyfnod cymhwyso
- Tâl salwch uwch y cwmni
- Manteision teithio ar Reilffordd Ffestiniog a Rheilffordd Eryri ac ar reilffyrdd cenedlaethol yn unol â rheolau Teithio Staff y Rheilffyrdd sydd ar waith adeg cyflogaeth.

Mae'r contract yn un llawn amser am 18 mis, gan ddechrau ym mis Medi neu Hydref 2022, yn Boston Lodge, Minffordd, Penrhyndeudraeth LL48 6HT. Rhaid i ymgeiswyr fod yn barod i fod yn hyblyg dros oriau gwaith / diwrnodau a disgwylir iddynt allu bod ar y safle y rhan fwyaf o ddiwrnodau gwaith yr wythnos.

## 5 Sut mae gwneud cais

Rhaid i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais a'r ffurflen cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd ar gael ar y wefan, ynghyd â CV os ydych chi'n dymuno, a'u hanfon i nlhfapplications@ffwhr.com erbyn 12 hanner dydd ar 8 Awst 22.

Nlhfproject.festrail.co.uk\careers

Y dyddiad a ragwelir ar gyfer y cyfweliad yw 23 Awst.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd, anfonwch e-bost i nlhfapplications@ffwhr.com

**Atodiad A Disgrifiad swydd**